❖ Hogiau'r Lori Ludw a'r Nadolig

Ysgwn i petai Iesu wedi ei eni yma yng Nghymru heddiw ai at hogiau'r lori ludw y byddai'r Angylion wedi mynd i gyhoeddi, 'Peidiwch bod ofn. Mae gen i newyddion da i chi! Newyddion fydd yn gwneud pobl ym mhobman yn llawen iawn.'

Bob blwyddyn, cyn Dydd Nadolig, byddaf yn rhoi tip ariannol i'r hogiau sy'n wythnosol yn gwagio fy min. Onid ydynt yn gwneud gwaith amhrisiadwy i'r gymdeithas?

Onid oedd y baban a anwyd yn y preseb yn debyg i hogiau'r lori ludw? Ganwyd Iesu i gael gwared â'n hysbwriel ni: rhagrith, celwyddau, balchder, ymffrost, trachwantau, twyll a llu o bechodau eraill. Dyma'r ysbwriel sydd yn wrthun gan Dduw.

Er mor dda yw'r hogiau am wagio'r bin, rhaid i mi ei roi wrth y giât i'm cartref bob bore Mercher. Dwi angen rhoi fy mhechod yn ddyddiol wrth ddrws Duw hefyd. Iesu Grist yw'r Gwaredwr annwyl sydd yn fodlon cymryd ein hysbwriel ni, ei faddau a'i daflu cyn belled ag y mae'r dwyrain o'r gorllewin, a hynny am byth, ond i ni ei roi Iddo.

Priodol iawn yw geiriau carol Eos Iâl:

Am hyn, bechadur, brysia
fel yr wyt,
ymofyn am y noddfa
fel yr wyt;
i ti'r agorwyd ffynnon
a ylch dy glwyfau duon
fel eira gwyn yn Salmon
fel yr wyt,
gan hynny tyrd yn brydlon
fel yr wyt.

Gwyn Rhydderch